

'Biwrocratiaeth orffwyll' - her newydd i ynni adnewyddol

Rheolau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn debyg i osod her newydd i ynni adnewyddol, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones ...

UN canlyniad i dywydd braf mis Gorffennaf ac Awst oedd i'n paneli ffotovoltaic weithio'n rhagorol, yn arbennig ym mis Gorffennaf.

Cynhyrchwyd mwy na 16kW awr y dydd o'n paneli 3kW: doedd Awst ddim cweit cystal, ond yn dra derbyniol. Roedd yn bleser gweld y deialau yn troi mor sydyn - i werthu nid prynu trydan! 'O na fyddai'n haf o hyd'.

Mae'r tŷ acw yn wynebu'r de-ddwyrain ac felly'n fangre parchus ond nid rhagorol. Mae Bangor yn fwy cymylog nag ardaloedd Llandudno, gorllewin Môn a Phenfro ond eto yn dderbyniol.

Yn flynyddol rydym yn cynhyrchu tua 2,500kW awr ac yn defnyddio tua 1800kW awr o'r 'mains' - sef tua 2.5kW awr y pen y dydd i Ella a minnau – o ddefnyddio'r unedau rwyf wedi eu defnyddio'n wythnosol.

Rydym yn gwerthu hanner ein cynnyrch i gwmni trydan Good Energy. Rhaid pwysleisio bod ein defnydd o nwy i gynnal y gwres canolog a disel i'r car ddim hanner mor wych!! Ond pan fydd ceir trydan yn rhatach, mae gennym drydan 'sbâr'.

SBARDUNO'R FARCHNAD

Yn anffodus, nid ydym yn derbyn y tariff hael o Lundain gan ein bod ar flaen y gad yn ymrwymo i osod ein paneli. Eto, rhaid canmol Llywodraeth San Steffan am y FITs [*Feed in Tariffs*] gan eu bod wedi sbarduno'r farchnad a chael yr effaith gadarnhaol o leihau costau paneli tua 80%. Yn ôl safle we WWF Cymru, roedd dros 28,000 o osodiadau PV yng Nghymru ar ddechrau'r flwyddyn hon a gobeithio bod dros 30,000 erbyn hyn.

Roedd y broses o sicrhau caniatâd i osod y paneli a'r drefn i allforio ein trydan yn ddigon didrafferth. Credaf fod hyn yn gyffredinol wir gydag unedau PV bach, 4kW neu lai.

Mater cwbl wahanol yw ceisio defnyddio ynni dŵr hyd yn oed mewn cynlluniau bach, er bod yn dŵr yn dychwelyd yn ôl i'r afon.

Edrychwch ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru – '*Appendix 1 General Hydro Power Licensing Information*'. Maddeuwch y Saesneg ond methais yn lân a darganfod dogfennau cyfatebol yn Gymraeg oddi wrth ein corff 'gwarchodol'!

Mae pedair tudalen i'w darllen a'u hastudio. Gobeithio bydd **Golwg** yn caniatáu i mi ddyfynnu - [fy nghyfieithiad answyddogol ond sbardun i CNC o bosib!]

Rhaid llenwi'r ffurflenni canlynol:

WR371 - ffurflen gais

WR 330 a 332 - i sicrhau trwydded lawn/trosglwyddol [dŵr?].

WR 334 - trwydded cronni (*impound*) dŵr.

WR 325 - Arweiniad ar Ymarferiadau Da i gynlluniau ynni hydro trydanol – rhestr awdit ac o arferion amgylcheddol.

FP 002 - caniatâd tramwyo pysgod.

FP 004 - caniatâd atal llifogydd.

Hefyd darllenwch WR 318, WR 329, a 331 a 333, WR335, FP 003, FP 002 a dau safle we '*Abstracting water- A guide to getting your licence*' a '*Hydropower Good Practice Guidings*'.

TRISTWCH PETHAU

At hyn rhaid cael caniatâd oddi wrth yr awdurdod lleol o dan y *Land Drainage Act* (1990), ac o bosib caniatâd cynllunio. Wrth gwrs, rhaid cysylltu'r twrbin gyda'r gwifrau trydan trwy'r *District Network Organisation* [DNO] lleol (yn aml iawn yn ddrud iawn) a chael cwmni trydan i brynu'r trydan ei hun.

Tristwch pethau yng Nghymru yw bod y telerau hyn yn bodoli os am ail adeiladu hen felin ar afon fechan, oedd mor gyffredin canrif yn ôl, neu godi cynllun uchelgeisiol cwbl newydd o sawl MW.

Wrth gwrs, rhaid bod yn ofalus, ond onid yw hyn yn fiwrocratiaeth orffwyll? Dylid gweld ynni hydro yn un o adnoddau mwyaf gwerthfawr ein hardaloedd bryniog, gwlyb.

Da o beth i Carwyn Jones gynnig un o'i wobrwyon i bob cynllun bach sy'n llwyddo i oresgyn yr holl waith papur, talu am yr ymgynghorwyr a ffioedd y DNO a dod yn weithredol!

Deallaf fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu ar bolisi newydd gan fod pwysau croes o du'r lobiau pysgota ac ynni adnewyddol.

Yn anffodus, mae'r datganiad i'r wasg ar eu safle we mor niwlog ac anweledig fel nad yw'n bosib deall pa wahaniaeth mae'r polisi am ei wneud.

Ond y si yw eu bod yn eu gwneud pethau yn anoddach fyth i ynni adnewyddol.